Afasic GeirfA

Cyfathrebu amgen / cynyddol (AAC)

Beth yw cyfathrebu amgen/cynyddol (AAC)?

Mae AAC yn fath o gyfathrebu sy'n ychwanegu at gyfathrebu ar lafar neu'n cymryd ei le, naill ai trwy ddyfais benodol (cyfathrebu **cynorthwyol**) neu drwy system – arwyddion neu symbolau (cyfathrebu nad yw'n gynorthwyol). Rhennir AAC yn gymhorthion neu systemau cyfathrebu uwchdechnoleg ac isdechnoleg.

Mae **cymhorthion uwchdechnoleg** fel arfer yn gymhorthion sy'n seiliedig ar deipiaduron a chyfrifiaduron sy'n defnyddio bysellfwrdd ac uned arddangos weledol ac efallai y bydd ganddynt lais. Gall y llais fod yn llais go iawn (recordiad gwirioneddol o lais person) neu'n synthetig (llais artiffisial).

Efallai y bydd y bysellfwrdd yn un QWERTY (fel ar deipiadur arferol), yn nhrefn yr wyddor neu'n dangos symbolau yn hytrach na llythrennau. Defnyddir yr olaf ar gyfer y rhai nad oes ganddynt sgiliau llythrennedd – ni fydd yn rhaid bod y plentyn neu'r oedolyn yn gallu darllen er mwyn defnyddio cymorth cyfathrebu. Gellir gweithredu llawer o gymhorthion gyda dyfais sganio gydag un botwm ar gyfer y rhai sy'n gyfyngedig o ran faint y gallant symud ee symud y ben-glin, y pen neu'r llygaid.

Mae'n bosibl hefyd amrywio nifer y symbolau a pha mor gymhleth ydynt a chyfuno'r rhain i gynhyrchu ymadroddion a brawddegau. Gall y rhan fwyaf o gymhorthion storio nifer o ymadroddion a brawddegau hefyd a gellir cael mynediad i'r rhain trwy wasgu un botwm.

DS. Mae'n hanfodol bod asesiad arbenigol yn cael ei gynnal gan weithiwr proffesiynol sy'n brofiadol mewn AAC cyn argymell unrhyw ddyfais neu system, p'un a yw'n system uwchdechnoleg neu'n isdechnoleg.

Bydd **cymhorthion isdechnoleg** fel arfer ar ffurf byrddau neu fframiau pwyntio, neu gymhorthion tebyg i ffeiloffacs neu eiriadur bach, a gellir personoli pob un i ddiwallu anghenion y cleient. Unwaith eto, gellir defnyddio llythrennau, symbolau neu luniau.

Gall systemau symbolau ddefnyddio cynrychioliadau darluniadol ee Rebus, neu symbolau haniaethol ee Blissymbolics, a gellir pwyntio at y rhain neu eu nodi ar sgrîn cyfrifiadur.

Enghreifftiau eraill o gymhorthion isdechnoleg yw llechi 'hud' a nodiaduron ar gyfer ysgrifennu.

Gall systemau arwyddion fod yn syml, gan gyfleu geiriau trwy arwyddion, fel Makaton, neu gallant fod yn gymhleth gan gynnwys arwyddion gramadegol, fel Paget-Gorman neu laith Arwyddion Prydain.

Cyfeiriadau

Southgate, T, a Cochrane, G (gol, 1990), *Communication equipment for disabled people*, Awdurdod Iechyd Rhydychen

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen pellach

Nolan, C (1990), *Under the Eye of the Clock*, Phoenix

Horwood, W (1988) *Skallagrigg*, Penguin

Rush, W (1986), *Journey out of Silence*, Media Publishing

Mae amrywiaeth o daflenni ar gael o'r Canolfannau ACE (gweler isod), sydd hefyd yn rhoi cyngor am asesiad.

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Nam iaith penodol (1)
- Ynganiad (10)
- Dyspracsia (18)
- Dysarthia (21)

Sefydliadau eraill a all helpu

ACE/ACCESS Centre
1 Broadbent Road, Watersheddings, Oldham, Greater Manchester OL1 4HU
Ffôn: 0161 627 1358

ACE Centre
Wayneflete Road, Oxford OX3 8DD
Ffôn: 01865 763508

Makaton Vocabulary Development Project
31 Firwood Drive, Camberley, Surrey GU15 3QD
Ffôn: 01276 61390

Paget Gorman Society
3 Gipsy Lane, Headington, Oxfordshire OX3 7PT
Ffôn: 01865 761908

RNID Cymru
8 Cathedral Road, Cardiff.
Ffôn: 029 2033 3034

Ysgrifennwyd gan Pat Mobley, therapydd lleferydd ac iaith, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.